

# Canolfan Addysg Y Bont

## Llawlyfr a Phrosbectws Ysgol

2024 - 2025



*Ffordd Cildwrn,  
Llangefni,  
Ynys Môn  
LL77 7PG*

*Ffôn: 01248 750 151*

*E-bost: [6607011\\_pennaeth.cayb@hwbcymru.net](mailto:6607011_pennaeth.cayb@hwbcymru.net)*


*Gwefan: [www.canolfanaddysgybont.cymru](http://www.canolfanaddysgybont.cymru)*

*Pennaeth: Andreas Huws*

## Datganiad Cenhadaeth

### **Dysgu**

Mae'r staff yng Nghanolfan Addysg Y Bont yn adnabod anghenion disgyblion yn dda iawn ac yn gweithio'n gyson i baratoi rhaglenni addas i sicrhau bod y cwricwlwm yn berthnasol i bob unigolyn.



### **Gofalu**

Mae'r Bont yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y plant yn effeithiol. Mae trefniadau effeithiol iawn ar gyfer hyrwyddo ffordd iach o fyw a llesiant disgyblion. Mae'r gofal a chymorth personol o ansawdd uchel.



### **Y cyfle i lwyddo**

Mae'r ysgol yn gynhwysol ac yn parchu amrywiaeth ac yn galluogi pawb i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfleoedd i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr.



## Pwrpas

Mae'r ysgol yn anelu at ddarparu'r llwybr addysg gorau a mwyaf priodol, i ateb anghenion pob disgybl unigol yn unol â'u hoedran, gallu a diddordebau mewn lleoliad dwyieithog sy'n parchu eu barn, dymuniadau ac uchelgeisiau mewn amgylchedd diogel a meithringar.

~~~~~

**Ymwadiad:** Er bod yr wybodaeth a gyflwynir yn y prospectws a llawlyfr hwn yn gywir ar adeg cyhoeddi, ni ddylid rhagdybio na fydd newidiadau yn cael eu gwneud cyn neu yn ystod y flwyddyn addysgol.

## Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Canolfan Addysg y Bont yn ysgol ddyddiol arbennig gydaddysgol, sy'n arbenigo yng ngofal ac addysg myfyrwyr rhwng 3 a 19 oed sydd wedi'u hadnabod ag anawsterau dysgu dwys. Mae'n disgyblion yn rhychwantu sbectwm eang o anghenion sy'n cynnwys awtistiaeth, anawsterau cyfathrebu ac mae rhai yn gallu dangos ymddygiadau sy'n herio. Mae'r ysgol yn cael ei chyllido gan yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI) ar gyfer 112 o ddisgyblion ac o'r 119 ar y gofrestr ar hyn o bryd, mae 31% yn ferched a 69% yn fechgyn. Nod yr ysgol yw helpu disgyblion i gyflawni eu potensial llawn trwy leihau agweddau negyddol eu hanabledd mewn amgylchedd sy'n cynnig cynhesrwydd, diogelwch, cysondeb a dealltwriaeth. Er mwyn cyflawni hyn rydym yn cynnig cwricwlwm strwythuredig, eang, cytbwys, perthnasol gan ddarparu profiadau a sgiliau i fyfyrwyr ddatblygu cymaint o annibyniaeth â phosibl.

Mae gan ein myfyrwyr fynediad at hinsawdd addysgu digyffro a chyson, sydd yn eclecig i ateb eu hanghenion dysgu a gofal unigol ychwanegol a mynd i'r afael â'u diagnosis, gyda chyfathrebu yn factor allweddol. Mae gennym ddisgwyliadau uchel ac rydym yn credu bod partneriaeth agored, onest â rhieni/uned deuluol a gweithwyr proffesiynol yn ofynnol i gyflawni ein nodau a bwriadau dysgu personol ar y cyd.

Mae **cyfeiriadau cychwynnol am leoliad** yn cael eu gwneud i'r awdurdod addysg lleol, a bydd Panel Cymedroli yn trafod unrhyw cyfeiriadau cyn penderfynu ar leoliad Ysgol Arbennig. Mae ymweliadau gan ddarpar rieni/teulu yn cael eu croesawu bob amser, a'r meini prawf yw Datganiad Anghenion Arbennig a/neu Gynllun Datblygu Unigol Awdurdod Lleol (neu EHCP). Yn naturiol mae gan yr ysgol drefniadau arbennig er mwyn hwyluso addysg disgyblion ag anabledau. Mae gan yr Awdurdod Lleol feini prawf mynediad penodol sy'n esbonio'r manylion perthnasol ymhellach. Gellir trafod hyn â **Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Ynys Môn**.

Mae'r ysgol wedi'i threfnu i dri phrif grŵp – Cynradd (6 dosbarth), Uwchradd (6 dosbarth), a dosbarth Gofal Arbennig o'r enw 'Dwynwen'. Mae'r holl ddisgyblion yn dilyn un neu ragor o'n 3 Llwybr Dysgu, sef y Llwybr Anffufiol, Lled-ffurfiol neu Ffurfiol.

Mae pob dosbarth yn cynnwys rhwng 8 ac 14 disgybl ac athro/athrawes a dau gymhorthydd dysgu – mae angen cymorth un i un ychwanegol ar rai disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys, gan gwmpasu'r Cwricwlwm newydd i Gymru, sy'n defnyddio rhaglenni wedi'u haddasu a/neu wedi'u gwahaniaethu lle'n briodol. Mae myfyrwyr yn cael eu hasesu gan ddefnyddio amrediad eang o ddulliau a fframweithiau asesu arbenigol, fel ABLLS (Llwybrau ar gyfer Dysgu), B-Squared, TALC ynghyd â lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol pan yn briodol. Mae rhieni yn derbyn adroddiadau ysgol ysgrifenedig dwy waith y flwyddyn, ac mae'r holl ddisgyblion yn cael eu hadolygu'n unigol o leiaf yn flynyddol. Mae gan bob myfyriwr Gynllun Addysg Unigol (CAU) i alluogi'r holl staff i fod yn ymwybodol o dargedau/canlyniadau ar y cyd. Mae cynnydd unigol yn cael ei gofnodi ac mae'n galluogi dathlu cyflawniadau bach dros amser. Mae amrediad o brofion eraill yn cael eu defnyddio pan yn briodol ac o berthnasedd i'r disgybl unigol.

Mae staff yn yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant mewn 'Datblygu Ymagwedd Gadarnhaol' (RESPECT) ac mae popeth posibl yn cael ei wneud i gynorthwyo myfyrwyr yn ystod adegau pryderus. Mae deall sut mae myfyrwyr yn gweld y byd yn hanfodol wrth ddelio â myfyrwyr anrhagweladwy a all brofi'n heriol. Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â disgyblion yn cael eu cofnodi ynghyd ag unrhyw atal corfforol a allai fod wedi bod yn angenrheidiol. Mae pob digwyddiad o'r fath yn cael eu cofnodi gan yr ysgol, a chopïau yn cael eu hanfon ymlaen at yr Awdurdod Addysg Lleol.

Nid oes nyrs ysgol ar gael ar y safle mwyach, fodd bynnag mae'r holl weithdrefnau yn cael eu harolygu gan bediatrydd y sir. Mae'r ysgol yn cael ei chynorthwyo'n dda gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae mewnbyn rheolaidd gan yr Awdurdod Iechyd Lleol gan gynnwys Therapyddion Lleferydd ac Iaith a ffisiotherapyddion yn cydweithio â staff yr ysgol.

Mae gan yr ysgol 57 aelod o staff sy'n cynnwys 15 o athrawon a 42 o gymorthyddion dosbarth. Mae Grŵp Rheoli'r ysgol wedi ymrwymo i ddatblygu'r holl weithwyr wrth eu galluogi i ddatblygu arbenigedd ac arbenigaethau ymhellach. Mae staff yn cael eu hannog i gymryd rôl weithredol yn eu datblygiad proffesiynol parhaus tra'n gyflogedig gan yr ysgol.

Mae'r holl staff a benodir l'r ysgol yn mynd trwy wiriadau llym gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), mae hyn ynghyd â Pholisi Diogelu Plant cadarn yn sicrhau mai dim ond y rheini sy'n addas i weithio â'n disgyblion arbennig iawn sy'n cael gwneud hynny.

Y Pennaeth yw'r unigolyn arweiniol dynodedig ar gyfer **Diogelu Plant a Phlant sy'n Cael eu Gwarchod**.

Mae adeilad yr ysgol a'r meysydd allanol yn amgylchedd diogel i gymuned yr ysgol. Mae mesurau rheoli penodol ar waith, gan gynnwys mynediad 'ffob' yn unig, arwyddion rheolau, Teledu Cylch Cyfyng ac amgaeadau wedi'u ffensio. Mae ardaloedd dysgu allanol sydd ond yn gallu cael eu cyrchu trwy'r prif adeilad.



## Defnydd yr Iaith Gymraeg

Nod Polisi iaith yr ysgol yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn yr ysgol yn gallu cyfathrebu'n llafar, a datblygu sgiliau dwyieithog sy'n cydweddu â gallu. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn gallu ymddodi'n llawn i'r gymuned ddwyieithog maen nhw'n rhan ohoni. Mae polisi Dwyieithog yr Awdurdod yn cael ei adlewyrchu hefyd ym mywyd dyddiol yr ysgol, fodd bynnag Cymraeg yw'r brif iaith cyfathrebu.

Yn y sector Cynradd (3 i 11 oed) y nod yw, trwy ddarpariaeth sensitif a phwrpasol, sicrhau sylfaen gadarn ym mamiaith y disgyblion. Mae hyn yn cynorthwyo mewn datblygu dwyieithrwydd yn ddiweddarach.

Yn y Sector Uwchradd (11-19 oed) mae'r pwyslais wedi'i ganoli ar y disgybl, ac mae'r ffocws ar sefydlu'r cydbwysedd cywir ynglŷn â dwyieithrwydd, ynghyd â'r rhaglen astudio unigol a ymgwymerir gan y disgybl unigol.



## Ethos a Gofal Bugeiliol

Mae'r system fugeiliol yn seiliedig ar athrawon dosbarth, sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am ofalu am les a llesiant personol pob disgybl yn y dosbarth a hefyd am oruchwylio ei ymddygiad/hymddygiad a chynnydd academaidd. Mae cyngor, cyfarwyddyd a chymorth ychwanegol ar faterion anodd a/neu mwy difrifol a/neu bryderon yn gallu cael eu cyfeirio at yr Athro/Athrawes sy'n arwain y dosbarth, UDR neu Bennaeth. Mae cofnodion manwl yn cael eu cadw gan athrawon dosbarth sy'n cynnwys llwyddiannau, pryderon neu arsylwadau a all fod yn berthnasol er mwyn helpu i adnabod cymorth mwy penodol.

Mae'r Swyddog Lles Addysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithredu'n agos â nifer o asiantaethau allanol megis amrediad o Therapyddion (gan gynnwys Lleferydd ac Iaith), Seicolegwyr Addysgol, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tîm Datblygu Plant, CAMHS, Awdurdod Iechyd a'r N.S.P.C.C.



Mae disgyblaeth yr ysgol yn seiliedig ar bolisi lle mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am ymddygiad ei dosbarth/ddosbarth ei hun, a disgyblion eraill wrth symud o gwmpas yr ysgol. Mae disgyblion yn gallu cael eu cyfeirio at y Pennaeth/SMT pan fydd angen.

Nid yw Canolfan Addysg Y Bont wedi gwahardd unrhyw ddisgybl ers 2011, fodd bynnag, mae gan y Pennaeth yr hawl i wahardd disgyblion rhag mynychu'r ysgol am doriadau disgyblaeth difrifol am gyfnod hyd at 45 diwrnod. Mae gan rieni yr hawl i apelio yn erbyn y gwaharddiad i Gadeirydd y Llywodraethwyr.

## Ymddygiad yn Y Bont

Mae'r holl ddisgyblion yn cael eu hannog i ymddwyn mewn dull cadarnhaol, cyfrifol sy'n dangos parch, cydymdeimlad ac empathi at anghenion eraill. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o 3 oed i 19 blwydd oed ag anghenion arbennig ac ychwanegol amrywiol, felly disgwylir i'r holl ddisgyblion ddatblygu rhywfaint o ymwybyddiaeth o anghenion ac anawsterau eu cyfoedion a dangos cydymdeimlad tuag atynt. Bydd pob athro/athrawes yn cymryd cyfrifoldeb am ymddygiad, a bydd yn barod i wrando, trafod a darparu cyngor neu gymorth i ddatrys unrhyw broblemau bob amser.

## Bwlio


Nid yw Canolfan Addysg Y Bont yn barod i oddef bwlio o unrhyw fath, boed yn:

- Gorfforol
- Llafar
- Neu unrhyw fath arall

Mae gan yr Ysgol bolisi gwrth-fwlio cadarn a bydd yn ymchwilio ar unwaith i unrhyw honiadau am unrhyw ffurf o fwlio a/neu wahaniaethu. Bydd yr ysgol yn defnyddio'i Pholisi Disgyblaeth fel y bo'n briodol ac y gwarantwyd iddi i ddelio ag unrhyw gyhuddiadau a digwyddiadau profedig.

Mae'r holl staff yn annog y syniad, "Mae'n iawn i ddweud, mae'n bwysig i ddweud", ac mae disgyblion yn cael eu hannog i fod yn agored a gonest a, "dweud wrth staff, dweud wrth ffrind, dweud wrth rieni neu deulu".

Dyma'n cymeriadau Pŵerau Dysgu fel y cawsant eu dylunio a'u henwi gan ein Disgyblion



## Ysgol – Trosolwg Gyffredinol a Gwybodaeth

### Gadael

Mae disgyblion yn gallu gadael yr ysgol pan fyddant yn cyrraedd yr oedran gadael ysgol statudol o 16 ar neu cyn 31 Awst. Y dyddiad ar gyfer gadael fel arfer yw'r dydd Gwener olaf ym Mehefin, fodd bynnag mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn penderfynu aros ymlaen hyd eu bod yn 19 ar yr amod fod darpariaeth addas yn gallu cael ei gwneud iddynt yn yr ysgol yn ystod y cam Ôl 16-19.

Bydd cydlynedd gyrfaedd yr ysgol a Swyddog Gyrfa Cymru yn cydweithio i drafod a chynghori disgyblion a rhieni o Flwyddyn 9 ymlaen.

### Trosglwyddo

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ag unrhyw fam-ysgol (gan gynnwys Yr Uned ABC) sy'n bwydo pan fydd disgybl yn symud i Ganolfan Addysg Y Bont. Pan fydd disgybl yn agosáu at fod yn oedolyn, galluogir ymagwedd amlasiantaethol â'r tîm trawsnewid oedolion wrth ei graidd. Mae unrhyw Golegau neu sefydliadau eraill y cyflwynwyd ceisiadau iddynt yn cael eu gwahodd i bob Adolygiad Blynnyddol ac unrhyw gyfarfodydd amlddisgyblaethol ynglŷn ag unrhyw fyfyrwr sy'n debygol o drosglwyddo, mae Gyrfa Cymru hefyd yn cymryd rhan ac yn rhagweithiol ar yr adegau trosglwyddo allweddol hyn.

## Grantiau Ysgol Llywodraeth Cymru

Mae Canolfan Addysg Y Bont yn derbyn amrediad cynyddol o Grantiau Llywodraeth Cymru, rhai o ganlyniad uniongyrchol i'r Pandemig Covid. Mae gwariant grantiau wedi'i dargedu'n bennaf at gynnal capasiti staff, er mwyn cynnal a gwella'r ddarpariaeth. Y ddau grant mwyaf arwyddocaol yw'r Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Gwella Ysgolion. Mae rhagor o wybodaeth ar grantiau ar gael yng Nghynllun Gwella'r Ysgol a/neu ar gais.

### Trosolwg: Cwricwlwm

***Sylwer: Mae'n llawlyfr a dogfen gynllunio Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn ymhelaethu ymhellach ar ein cynnig Cwricwlwm, gan ddarparu rhagor o wybodaeth a chyfarwyddyd. Mae'r Llawlyfr CiG wedi'i amgáu fel Llawlyfr ar wahân l'n Prosbectws, mae ar gael hefyd fel copi caled ar gais, neu gellir ei weld ar ein gwefan: [www.canolfanaddysgybont.cymru](http://www.canolfanaddysgybont.cymru)***

Mae'r ysgol yn anelu at godi cyflawniadau a chanlyniadau'r holl ddisgyblion trwy'r dysgu, y gofalu a thrwy ddarparu'r cyfle i lwyddo. Mae cyflawniad a llwyddiant disgyblion yn cael eu dathlu trwy'r ysgol gyfan, ac mae gwobrwyo gadarnhaol yn cael eu defnyddio i hyrwyddo ac annog ymddygiad a dysgu da. Mae amrediad eang o achrediau a chymwysterau ar gael o fewn yr ysgol ac ar draws ein 3 Llwybr Dysgu, gan adlewyrchu cwricwlwm cytbwys a'r pwysigrwydd mae'r ysgol yn ei roi ar gyflawni ar bob lefel.

O fewn yr ysgol ac ar draws ein 3 Llwybr Dysgu, mae amrediad eang o allu, cyrhaeddiad a champau o ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol ac, mae'r ysgol yn caniatáu arddulliau, cyfraddau a chyflymder cynnydd unigol. Mae'r staff yn defnyddio ymagwedd wedi'i chanoli ar unigolyn wrth ddarparu dysgu a phrofiadau.

Mae disgyblion yn cael eu hannog i ddod yn ddysgwyr annibynnol sy'n mwynhau addysg ac a fydd yn gadael ysgol yn aelodau hyderus ac annibynnol o gymdeithas. Mae'n cwricwlwm yn berthnasol, cytbwys a chreadigol, tra'n hyrwyddo eu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol a llesiant wrth baratoi am fywyd fel oedolyn.


Mae cyngor gyrfaoedd yn cael ei roi i ddisgyblion hŷn ac mae lleoliadau cyswllt o fewn coleg lleol a phrofiad gwaith byd go iawn ar gael hefyd. Dylai'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol fod o berthnasedd i'w bywydau, yn y presennol, yn ogystal ag ar gyfer y dyfodol.

Mae gan yr ysgol Bolisi Cyfleoedd Cyfartal a Chynllun Cydraddoldeb Strategol ac rydym yn cymryd gofal i sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu trwy'n holl gwricwlwm a pholisïau. Mae'n Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'i alinio ag un yr Awdurdod Lleol. Mae gan ein holl fyfyrwyr naill ai Ddatganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol, neu Gynllyn Datblygu Unigol (CDU), neu fersiwn hybrid o'r ddau, wrth i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol statudol newydd.

## Map Cwricwlwm

### Anffurfiol


Mae disgyblion ag anhawster dysgu dwfn a lluosog yn dilyn y llwybr Anffurfiol. Maen nhw'n derbyn cyfleoedd dysgu sy'n ddatblygiadol briodol ac atebir eu hanghenion synhwyraidd er mwyn hyrwyddo hunanreoleiddio a chynyddu ymgysylltiad. Ffocws y cwricwlwm anffurfiol yw galluogi'n disgyblion i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol rhyngweithiol, archwilio'r amgylchedd gan roi bob cyfle iddynt gyflawni'r lefel uchaf bosibl o annibyniaeth. Mae cynnydd ar y llwybr anffurfiol yn cael ei asesu gan ddefnyddio'r Llwybr ar gyfer Dysgu (Routes for Learning). Yn ystod y blynyddoedd diweddarach mae cyflawniadau disgyblion yn cael eu hachredu trwy'r rhaglenni sy'n seiliedig ar achrediaeth ASDAN.



### Lled-ffurfiol

Mae'n cwricwlwm lled-ffurfiol wedi cael ei gynllunio ar gyfer ein disgyblion ag anawsterau dysgu dwys. Mae disgyblion sy'n dilyn y cwricwlwm lled-ffurfiol yn cael profiadau a chyfleoedd sy'n anelu at ddatblygu eu sgiliau ffwythiannol, cyfathrebu, llesiant emosiynol, hyder ac annibyniaeth. Rydym yn teimlo bod disgyblion yn dysgu orau pan fydd dysgu yn berthynol i'w profiadau eu hunain, gallai hyn gynnwys; dysgu trwy chwarae, sgiliau bywyd annibynnol yn ogystal ag ymagwedd seiliedig ar bwnc.


Fel ysgol rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig i ddarparu ymagwedd wedi'i chanoli ar ddisgyblion, lle mae'r ffocws yn cael ei roi ar brif feysydd yn hytrach na phynciau, sydd wedyn yn cael eu cefnogi gan ddysgu thematig. Bydd rhai disgyblion sy'n dilyn y llwybr lled-ffurfiol yn dechau dangos cynnydd mewn perthynas â fframweithiau, rhaglenni ac ymyriadau fel Ff.LI.& Rh., Ff.C.D, ABLLS a Numicon. Bydd disgyblion yn y sector uwchradd sy'n dilyn y llwybr hwn yn cyrchu gwobrau a chymwysterau priodol wrth baratoi ar gyfer eu bywydau fel oedolion.








## **Ffurfiol**

Mae disgyblion ar ein cwricwlwm ffurfiol yn dechrau cyrchu ymagwedd academaidd fwy strwythuredig at eu dysgu, a magu sgiliau annibynnol yn parhau fel prif flaenoriaeth. Bydd disgyblion ar y llwybr hwn yn dechrau dangos cynnydd o fewn camau cynnydd meysydd dysgu'r Cwricwlwm Newydd i Gymru. Mae pwyslais yn cael ei roi ar fframweithiau sgiliau statudol fel yr LNF a DCF sy'n cael eu cadarnhau trwy weithgareddau ymarferol a phrofiadau bywyd go iawn. Bydd disgyblion yn y sector uwchradd yn dilyn llwybrau achredu trwy'r cymwysterau ASDAN yn ogystal ag Agored Cymru.








**Noder:** Mi fydd y Cyfnod Sylfaen bellach yn cael ei gyfeirio ato fel 'Dysgu Sylfaen' o Medi 2022 ymlaen, I adlewyrch'r ffaith y bydd y cwricwlwm newydd yn gontinwrm 3-16 oed heb gamau na chyfnodau.

## Darpariaeth Cwricwlwm

|                                                                               | Cyn/Anffurfiol<br>(Arweinir yn Synhwyrdd)<br>                                                                                                                  | Lled- Ffurfiol<br>(Ffwythiannol a Chyfathrebu)<br>                                                                                                                                                                                                                                        | Ffurfiol<br>(AofLE – Camau Cynnydd)<br> |
|-------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Assessments/<br/>Aseidiadau</b>                                            | Map Llwybrau (Routes f L)<br>Sylfeini Cadarn Numicon                                                                                                                                                                                            | Camau Cynnydd – Meysydd Dysgu a Phrofiad<br>Fframwaith Llythrennedd Rhifedd<br>Fframwaith Cymhwysedd Digidol<br>Fframwaith Gyrfaodd a Byd Gwaith<br>Fframwaith Personol a Chymdeithasol<br>BSquared<br>ABLLS<br>Sylfeini Cadarn Numicon a Kit 1<br>Teclyn diagnostig Rhifedd Sylfaenol<br>NEALS Reading<br>Profion Glannau Menai – Darllen Cymraeg<br>Prawf Sillafu'r Ifanc |                                                                                                                            |
|                                                                               | Proffil/ Deilliannau Cyfnod Sylfaen<br>Cymorth Gweithredol<br>TALC                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                            |
| <b>Ymyriadau/<br/>Rhaglen<br/><br/>Rhaglenni/<br/>Rhaglenni<br/>Ymyrraeth</b> | Eye Gaze<br>ETram<br>Gwrthrych cyfeiriad<br>Therapi Cerddoriaeth                                                                                                                                                                                | Talkabout<br>Language for Thinking<br>Reading Eggs<br>Purple Mash<br>RMeasi Maths<br>KUMON<br>Write from the Start<br>Rhaglenni Darllen Cymraeg<br>Cynlluniau Darllen Saesneg                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                            |
|                                                                               | Tacpac<br>PACT<br>Attention Autism                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                            |
|                                                                               | Makaton<br>PECS<br>Sherbourne<br>Hydrotherapi<br>Targedau ICP (SALT)<br>Targedau Therapi Galwedigaethol<br>Rhaglen Ffisiotherapi<br>Athro Arbenigol ar gyfer rhai â Nam Clyw - targedau<br>Athro Arbenigol ar gyfer rhai â Nam Golwg - targedau |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                            |
| <b>Accreditations/<br/>Achrediadau</b>                                        | ASDAN – New Horizons (KS3)<br>Agored Cymru – Gwobrau a Chymwysterau (Cyn mynediad – Lefel 1)<br>ASDAN –Cynnydd Personol (Cyn mynediad – Mynediad 1)                                                                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                            |
|                                                                               | Dug Caeredin                                                                                                                                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                            |
|                                                                               | ASDAN – PSD (E1)                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                                            |
|                                                                               | ASDAN – Her Trosglwyddo<br>ASDAN – Tuag at Annibyniaeth                                                                                                                                                                                         |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | OCR<br>WJEC<br>ASDAN – PSD (E2)                                                                                            |


**Canlyniadau/Targedau a'n Llwybr at Lwyddiant**

|                                                                                   |                                                                                      |                                                                                    |                                                                                                                     |
|-----------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  |     |  | <br>Qualifications/ Achrediaada |
| <b>Cyn/ Anffurfiol</b>                                                            | <b>Lled-Ffurfiol</b>                                                                 | <b>Ffurfiol</b>                                                                    |                                                                                                                     |
| Communication/<br>Cyfathrebu                                                      | My Communication/<br>Fy Nghyfathrebu                                                 | Literacy and<br>Communication/<br>Llythrennedd a Chyfathrebu                       |                                                                                                                     |
| Cognitive/ Gwybyddol                                                              | My Problem Solving/ Fy<br>Natrys Problemau                                           | Numeracy/ Rhifedd                                                                  |                                                                                                                     |
| Physical/ Corfforol                                                               | My Physical Well-being and<br>Independence/ Fy Llesiant<br>Corfforol ac Annibyniaeth | Health and Wellbeing/<br>Iechyd a Llesiant                                         |                                                                                                                     |
| Sensory/ Synhwyrdd                                                                | Me and My Community/ Fi<br>a Fy Nghymuned                                            | Digital Competence<br>Framework/ Fframwaith<br>Cymhwysedd Digidol                  |                                                                                                                     |
| KS 4 – My Future<br>Choices/ Fy Newisiadau<br>i'r Dyfodol                         | KS 4 – My Future Choices/<br>Fy Newisiadau i'r Dyfodol                               | KS 4 – My Future Choices/<br>Fy Newisiadau i'r Dyfodol                             |                                                                                                                     |



## Gwisg Ysgol

Mae Canolfan Addysg Y Bont yn ystyried y dylai pob disgybl wisgo gwisg ysgol i feithrin ymdeimlad o falchder a pherthyn i'w hysgol lle bynnag y bo'n bosibl ac yn realistig. Mae'n cael ei werthfawrogi'n llawn bod safonau gwisgo ymhlith pobl ifanc wedi newid ac yn gallu gwahaniaethu (bod Covid wedi cael effaith), a bod gan rai o'n disgyblion anghenion unigol penodol, gan gynnwys anghenion emosiynol, ond mae isafswm safon gwisg ysgol yn ddymunol a dylai disgyblion ymdrechu i gadw at y rheol os oes rhywfaint o arwyddocâd i wisg ysgol.

| <u>Disgyblion Cynradd</u>                                                                    |  | <u>Disgyblion Uwchradd</u>                     |              |
|----------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------|--------------|
| Crys polo glas tywyll<br>Crys chwys gwyrdd jâd<br>Sgert neu drowsus Llwyd, Du neu Las tywyll | Sgert neu drowsus Du, Llwyd neu Las tywyll                                         | Crys polo gwyrdd jâd<br>Crys chwys glas tywyll |              |
| <b><u>Dillad Ymarfer Corff:</u></b>                                                          |                                                                                    |                                                |              |
| Crys T neu debyg                                                                             | Trowsus bachs                                                                      | Trenyrs                                        | Dillad nofio |

## Adrodd i Rieni

Mae dau adroddiad yn cael eu dosbarthu'n flynyddol (yn Rhagfyr a Gorffennaf). Mae adolygiadau blynyddol yn cael eu cynnal hefyd ar bob disgybl ar adegau gwahanol yn ystod y flwyddyn i alluogi'r ysgol i ddarparu adroddiad cywir i rieni ac asiantaethau eraill. Mae'r weithdrefn adolygu ar gyfer Blynyddoedd 9 - 14 yn cael ei chynnal yn ystod tymor yr hydref tra bo'r blynyddoedd eraill yn cael eu cynnal ym Mai/Mehefin. Mae adolygiadau interim yn gallu cael eu cynnal ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ysgol.

Ar ddiwedd tymor yr haf mae adroddiad yn cael ei lunio i rieni sy'n amlinellu'r datblygiad a wneir yn ystod y flwyddyn. Mae rhieni'n cael eu gwahodd yn ffurfiol i'r ysgol i drafod datblygiad eu plentyn â'r athro/athrawes dosbarth pob tymor, fodd bynnag mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored sy'n galluogi rhieni i ymweld â'r ysgol ar unrhyw adeg ar yr amod fod y Pennaeth a/neu swyddfa'r ysgol yn cael eu hysbysu ymlaen llaw.

## Plant o dan Warchodaeth (Awdurdod Lleol)

Mae gan yr ysgol bolisi clir i sicrhau bod disgyblion sydd o Dan Warchodaeth gan awdurdodau Lleol gwahanol yn cael y cymorth a'r ddarpariaeth gywir, ac nad yw bod 'o Dan Warchodaeth' yn cael effaith ar eu llesiant na'u cyrhaeddiad. Mae data yn cael eu dadansoddi er mwyn sicrhau hyn. Mae'r polisi ar gael, ar gais o'r ysgol.

## Profiadau Awyr Agored ac Oddi Ar y Safle

Mae amrediad eang o weithgareddau awyr agored ac oddi ar y safle yn cael eu darparu gan yr ysgol. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys; Nofio, Gymnasteg, Dringo, Marchogaeth (RDA), Chwaraeon Timau ac Athletau, Gweithdai Celf, Gweithdai Cerddoriaeth, Troeon Cerdded Natur ac Ymchwilio, Siopa yn y Gymuned, Perfformiadau, gweithgareddau datrys problemau, Ymgysylltu â'r gymuned hynny yw, glanhau'r traeth, gweithgareddau elusennol, ymweliadau ysgol â'r dyniaethau fel ffocws, teithiau ysgol cyffredinol.



## Bysiau Mini



I sicrhau ein bod yn darparu digon o brofiadau a chyfle i'n disgyblion trwy weithgareddau a theithiau addysgol oddi ar y safle, mae'r ysgol yn berchen ar 3 bws mini gan gynnwys 1 sydd wedi cael ei gynllunio'n benodol i gludo disgyblion mewn cadeiriau olwyn.

Mae Canolfan Addysg Y Bont yn dilyn canllawiau a pholisi'r Awdurdod Lleol ynglŷn a chynnal, yswirio a hyfforddi gyrrwyr y cerbydau.

## Iechyd a Diogelwch

Mae'n bolisi'r ysgol, mor belled ag y mae'n bosibl ac y disgwylir yn rhesymol, i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant ein gweithwyr, disgyblion, ymwelwyr ac eraill sy'n gallu cael eu heffeithio gan weithgareddau'r ysgol.

Mae'r holl weithdrefnau a chanllawiau statudol angenrheidiol yn cael eu cynnal i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'i bolisi.

Mae prif fynedfeydd yr ysgol yn cael eu diogelu gan gloeon magnetig fel nad oes unrhyw ddisgybl yn gallu gadael yr ysgol heb gwmni ac i sicrhau nad oes dieithriad nac ymwelwyr yn gallu cael mynediad heb ganiatâd. Mae camerâu diogelwch wedi'u lleoli o gwmpas yr ysgol i gynorthwyo â diogelwch cyffredinol a monitro.

Mae ardaloedd chwarae ac addysgu y tu allan yng Nghanolfan Addysg Y Bont wedi'u ffensiio a/neu wedi'u hamgáu er mwyn cadw'r disgyblion yn ddiogel yn ystod y diwrnod ysgol. Mae disgyblion yn cael eu goruchwyllo ar bob adeg yn yr ardaloedd hyn.

Mae gan ddisgyblion anabl fynediad at yr holl ardaloedd a chyflesuterau oherwydd cynllun modern, cynhwysol.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn cael eu cludo i ac o'r ysgol gan gontractwyr yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am bob contract o'r fath, ac mae ganddynt ganllawiau Diogelu llym ar waith. Mae staff ysgol yn cynorthwyo disgyblion wrth iddynt gyrraedd a gadael yr ysgol.

Mae copi llawn o'r Polisi Iechyd a Diogelwch ar gael gan y Pennaeth. Mae gan yr Ysgol Asesiadau Risg Covid cadarn sydd wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol.

## Gweithdrefnau Diogelu Plant

Mae gan yr Ysgol bolisi clir ar Ddiogelu ac Amddiffyn Plant, ac mae'n glynu wrth Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae'r polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol ac mae'r Pennaeth yn darparu Adroddiad Diogelu ac Amddiffyn Plant llawn blynyddol i'r Corff Llywodraethol a'r Awdurdod Addysg Lleol. Y Pennaeth yw'r arweinydd dynodedig ar gyfer Diogelu yn yr ysgol, mae Llywodraethwr hefyd sydd â chyfrifoldeb dynodedig ar gyfer Diogelu.

## Darpariaeth Feddygol

Nid oes gan yr ysgol nyrs llawn amser ar y safle mwyach, fodd bynnag mae staff Gofal Iechyd ar gael i gynorthwyo disgyblion ag anghenion meddygol mwy cymhleth. Os oes damwain neu anaf yn digwydd bydd cymorth cyntaf yn cael ei roi gan gymorthyddion cyntaf. Mae gan bron yr holl staff hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol o leiaf, a rhai yn meddu ar ardystiad lefel uwch.



Mae'n bwysig fod yr ysgol yn gwybod am unrhyw alergeddau a hanes/cyflwr meddygol arall a all fod gan eich plentyn. Mae hyn yn cael ei gyfathrebu fel arfer pan fydd plentyn yn cael ei gofrestru yn yr ysgol, Fodd bynnag dylai unrhyw gyflyrau 'newydd' a/neu wedi'u diweddarau gael eu cyfathrebu'n glir i'r ysgol cyn gynted â phosibl. Os yw'ch plentyn yn sâl byddwn yn cysylltu â chi ar y teleffon. Rydym felly'n gofyn i chi sicrhau bod gennym rif teleffon lle gallwn ni gysylltu â chi mewn argyfwng.

## Codi & Thrin

I sicrhau diogelwch disgyblion a staff mae'r ysgol yn gweithredu polisi codi a thrafod â llaw. O dan reolau a rheoliadau'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith mae'r ysgol yn sicrhau'r canlynol:

- Asesiad llawn o unrhyw unigolyn sydd ag angen cymorth i symud
- Sicrhau bod cyfarpar yn ei le sydd yn ddiogel ac heb risg
- Sicrhau bod yr hyfforddiant a'r rheolaeth yn ddigonol ac wedi'i ddiweddarau
- Sicrhau'r gwiriadau pob dwy flynedd ar offer codi/symud



## Cyfleusterau Toiled a Newid

Mae gan yr ysgol 10 ystafell toiled/newid (5 i ferched a 5 i fechgyn), mae toiledau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn a chyfarpar codi ym mhob ardal o'r ysgol. Yn ystod y tymor, mae'r rhain yn cael eu glanhau a'u cynnal gan staff hyfforddedig bob dydd.

## Polisi ar Godi Ffioedd

Mae gan yr ysgol bolisi ar godi ffioedd yn daladwy yn unol â pholisïau'r Awdurdod Addysg Lleol. Mae copi ar gael gan y Pennaeth. Lle'n briodol, mae cronfa'r Ysgol yn cael ei defnyddio i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bawb.

## Statws elusennol

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Cyfeillion sy'n elusen gofrestrdedig (Rhif 1045033).

Mae Cyfeillion yr Ysgol yn gymdeithas â'i phwrpas yw hyrwyddo llesiant cymuned yr ysgol gyfan. Yn y gorffennol mae wedi helpu prynu neu gyllido'n rhannol bysiau mini, cyfarpar TG, Teithiau Ysgol, Cyfarpar Arbenigol amrywiol a datblygu ardal chwarae y tu allan.

Mae'r holl arian sy'n cael ei godi gan yr Ysgol a'r Gymdeithas Cyfeillion trwy weithgareddau codi arian amrywiol yn cael ei gyhoeddi a'i archwilio'n flynyddol yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni.

## CWRICWLWM – MATERION CYFFREDINOL

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chyfleoedd Cyfartal

Mae gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb Strategol, mae copi ar gael ar gais o'r ysgol. Mae'r cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol ac mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn derbyn copi o'r adroddiad. Mae Canolfan Addysg Y Bont yn gweithredu polisi cyfle cyfartal sy'n gofalu bod pob disgybl, ni waeth pa ryw, hil, lliw, credoau neu anabledd yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu potensial llawn. Mae'r Cynllun yr un mor bwysig wrth ystyried y Cwricwlwm gweithredol i Gymru a'r cwricwlwm cudd. Mae'n berthnasol ac yn ganolog i ethos ein hysgol, gan gynnwys holl staff, disgyblion ac asiantaethau allanol yr ysgol.

Disgwylir i athrawon sicrhau nad oes rhagfarn ystadegol na dealltwriaeth annigonol yn cael eu darparu o fewn unrhyw ddeunydd cwricwlwm. Mae gan yr holl staff gyfrifoldeb i annog yr holl ddisgyblion i fod yn garedig ac yn ystyriol at ei gilydd.

Rydym yn credu bod cyfraniad Rhieni/teulu hefyd yn chwarae rôl ganolog mewn dylanwadu ar a llywio'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac yn croesawu unrhyw fewnbwn.

I grynhoi, hawliau ein disgyblion unigol yw;

- a) Yr hawl i beidio â chael ei fychanu/bychanu ar sail ei iaith/hiaith, sefyllfa gartref, lliw, rhyw neu anabledd.
- b) Yr hawl i gael ei ddysgu/dysgu mewn amgylchedd cadarnhaol heb ragfarn nac anwybodaeth yn ddiogel rhag sarhad, camdriniaeth neu ormes.
- c) Parch tuag at ei draddodiadau/thraddodiadau, etifeddiaeth a ffordd o fyw.
- ch) Teimlo'u bod yn perthyn ac yn cael eu gwerthfawrogi o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach ac adnabod eu hawliau a chyfrifoldebau o fewn y gymuned honno.

### Gwobrau a Chyflawniadau a gydnabyddir yn Genedlaethol

Yng Nghanolfan Addysg Y Bont rydym yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod ein hysgol yn cael ei chydabod gan y gymuned ehangach a'r sefydliad addysgol. Ein nod yw sicrhau bod hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ein disgyblion, staff a llywodraethwyr. Mae rhai enghreifftiau o wobrau, safonau a chyflawniadau a dderbyniwyd yn y 10 mlynedd diwethaf yn cynnwys:

Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru

Welsh Network of Healthy School Schemes



Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Eco – Ysgol Platinwm



Lleoliad Cyfeillgar i Makaton

Ysgol Gyfeillgar i Gyfathrebu Eiklan



Gyrfa Cymru  
Careers Wales

Safon Ansawdd Gyrfa Cymru

Buddsoddwyr mewn Pobl



INVESTORS  
IN PEOPLE



Gwobr Ysgol Ryngwladol y Cyngor Prydeinig

Ysgol Masnach Deg

Canolfan Ragoriaeth Asdan



Canolfan Achredig Agored Cymru

## **Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb (AP&Rh)**

Beth bynnag yw cam a dull eu datblygiad rhywiol, dylai disgyblion a phobl ifanc deimlo bod addysg Perthynas a Rhywioldeb yn berthnasol i'w hanghenion unigol a phenodol. Gallant ei chael yn anodd i drafod pethau â rhieni neu ofalwyr. Ni fydd dewisiadau rhywiol yn cael eu hyrwyddo'n uniongyrchol, ond dylai athrawon drafod materion mewn dull agored a sensitif heb ragfarn. Mae'n bwysig fod pobl ifanc yn datblygu dealltwriaeth a pharch at eraill, beth bynnag y bo'u rhywioldeb a'u tuedd. Yng Nghanolfan Addysg Y Bont, rydym yn barod bob amser i wrando a thrafod unrhyw faterion Perthnasoedd a Rhywioldeb â rhieni, gan gyfeirio at unrhyw gymorth neu gyfarwyddyd angenrheidiol a all fod yn briodol.

## **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)**

Mae CGM yn ffurfio rhan o ymagwedd drawsgwricwlaidd ac nid yw gweithgareddau wedi'u cynllunio i annog credoau crefyddol nac i ddylanwadu unrhyw greddoau eraill ar ddisgyblion. Mae'n cynnwys astudiaeth o grefydd yn ogystal â gwerthoedd ac mae'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion archwilio a mynegi eu teimladau a'u credoau eu hunain. Mae CGM yn nodi cyfraniad pwysig i ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion trwy eu helpu i ddatblygu eu credoau a'u gwerthoedd. Mae'n cael ei gyflwyno gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu fel, trafodaethau, drama, cerddoriaeth, celf, TG, arteffactau ac ymweliadau â mannau addoliad.

Mae gwasanaethau ysgol (naill ai ar y cyd neu wedi'u lleoli mewn dosbarth) yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac yn canolbwyntio'n bennaf ar Gristnogaeth, fodd bynnag mae gan bob crefydd rôl i'w chwarae. Nid oes gan yr ysgol unrhyw berthynas nac aliniad ag unrhyw grefydd na sefydliad penodol.

Os yw rhiant yn gwrthwynebu neu fod ganddo/ganddi bryderon ynglŷn â'n hymagwedd CGM, yna maen nhw'n cael eu hannog i gysylltu â'r pennaeth i drafod, a fel bod trefniadau amgen addas yn gallu cael eu gwneud.

## **Addysg Gorfforol**

Bydd Canolfan Addysg Y Bont yn darparu addysg gorfforol gan ddefnyddio ymagwedd wedi'i chanoli ar unigolyn ac amlswyddogaethol, gan adlewyrchu anghenion unigol a gofynion cwricwlaidd dros amser. O dan Gwricwlwm newydd Cymru, bydd yn cael ei adlewyrchu ym maes Dysgu a phrofiad lechyd a Llesiant, fodd bynnag rydym hefyd yn pwysleisio natur drawsgwricwlaidd gweithgaredd corfforol yn ein darpariaeth. Rydym yn anelu at ddarparu'r cyfleoedd cyson i gystadlu, i lwyddo, i fod yn rhan o dimau, ac i fwynhau'r cyfle i gymdeithasu.

Trwy'n cynllunio lechyd a Llesiant ac addysg a gweithgareddau Corfforol rydym yn anelu at;

- Ddysgu sut i gydweithredu â'n gilydd, mewn parau, grwpiau a thimau
- Datblygu gwerthfawrogiad o chwarae teg
- Datblygu amrediad o sgiliau corfforol ar draws amrediad o weithgareddau chwaraeon a chorfforol
- Datblygu hunanhyder trwy ddeall eu galluoedd a'u cyfyngiadau eu hunain
- Datblygu gwerthfawrogiad o rinweddau aestheteg symudiad a dawns
- Ysgogi disgyblion er mwyn iddynt gadw diddordeb gydol oes ym mhob agwedd o chwaraeon, gweithgaredd corfforol a hamdden gan eu galluogi i ddefnyddio canolfannau chwaraeon lleol ac i gefnogi timau lleol a chenedlaethol.





## Gweithdrefn Gwynion

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 3/2004), wedi sefydlu gweithdrefn i ystyried cwynion ynglŷn â'r ffordd mae Cyrff Llywodraethol a'r Awdurdodau Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm yr ysgol a materion perthynol eraill. Mae'r weithdrefn hon yn cael ei hamlinellu mewn dogfen yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol.

Mae'n cael ei bwysleisio, fodd bynnag, y gellir delio â llawer o gwynion yn gyflym ac yn effeithiol trwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau â'r Pennaeth/Uwch Dîm Rheoli neu staff perthnasol eraill yn yr ysgol. Dyma'r cam rhesymol cyntaf, ac oni bai fod yr amgylchiadau'n eithriadol, byddai'r Corff Llywodraethol yn disgwyl i'r cam hwn fod wedi cael ei gwblhau cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol.

## Ymweld â Chanolfan Addysg Y Bont

Mae croeso i'r holl rieni/gwarcheidwaid ymweld â Chanolfan Addysg Y Bont. Mae polisi drws agored ar waith i rieni/gwarcheidwaid os oes angen, fodd bynnag byddem yn gofyn i rieni wneud apwyntiadau pan fydd amgylchiadau'n caniatáu hyn. Cynghorir darpar rieni i drefnu apwyntiadau cyn ymweld â'r ysgol



## Dogfennaeth Ysgol

Mae amrediad o ddogfennau yn cael eu cadw yn swyddfa'r ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae croeso i Rieni/Gwarcheidwaid weld unrhyw ddogfen/polisiâu, ac mae pob ymdrech resymol yn cael ei gwneud i gynnwys rhieni/gwarcheidwaid yn y drafodaeth pan fydd y dogfennau'n cael eu hadolygu.

Mae copi o'r Llawlyfr/Prosbectws yn cael ei ddarparu i'r holl rieni newydd; mae ar gael yn nerbynfa'r Ysgol a hefyd ar-lein (gan gynnwys fersiwn brintadwy). Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Llawlyfr yn berthnasol i'r flwyddyn ysgol bresennol, fodd bynnag –mae newidiadau'n gallu digwydd yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae'r Llawlyfr/Prosbectws yn cael ei adolygu'n flynyddol. Rydym yn croesawu unrhyw adborth a all fod gennych ar y Llawlyfr/Prosbectws.

## Dyddiadau Tymhorau ar gyfer 2023/24

|              |                |   |                    |
|--------------|----------------|---|--------------------|
| Hydref 2024  | 2 Medi 2024    | - | 20 Rhagfyr 2024    |
| Gwanwyn 2025 | 6 Ionawr 2025  | - | 11 Ebrill 2025     |
| Haf 2025     | 28 Ebrill 2025 | - | 21 Gorffennaf 2025 |

**Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar Ddydd Mawrth, 3 Medi 2024**

### Gwyliau

|                 |                  |   |                  |
|-----------------|------------------|---|------------------|
| Hanner Tymor    | 28 Hydref 2024   | - | 1 Tachwedd 2024  |
| Gwyliau Nadolig | 23 Rhagfyr 2024  | - | 3 Ionawr 2025    |
| Hanner Tymor    | 24 Chwefror 2025 | - | 28 Chwefror 2025 |
| Gwyliau Pasg    | 14 Ebrill 2025   | - | 25 Ebrill 2025   |
| Calan Mai       | 05 Mai 2025      |   |                  |
| Hanner Tymor    | 26 Mai 2025      | - | 30 Mai 2025      |

**Mi fydd yr ysgol yn cau am Gwyliau'r Haf ar ddydd Llun, 21 o Orffennaf, 2025.**

### Dyddiau Hyfforddiant mewn Swydd

2 Medi 2024 - cynllunio  
30/9/24 – HMS  
25/10/24 - HMS  
6/1/25 – HMS  
28/4/25 -HMS  
(x1 HMS – TBC)

### Amserlen yr Ysgol

|                   |                                   |
|-------------------|-----------------------------------|
| 8.50am – 9.00am   | Disgyblion yn cyrraedd            |
| 9.00am – 9.15am   | Cofrestru, Gwasanaeth             |
| 9.15am – 10.15am  | Gwersi                            |
| 10.15am – 10.45am | Sgiliau Cymdeithasol              |
| 10.45am – 12.00pm | Gwersi                            |
| 12.00pm – 1.00pm  | Amser Cinio                       |
| 1.00pm – 2.00pm   | Gwersi                            |
| 2.00pm – 2.15pm   | Toriad (cynradd yn unig)          |
| 2.15pm – 3.00pm   | Gwersi                            |
| 3.00pm – 3.10pm   | Dyddiaduron/Paratoi am fynd adref |
| 3.15pm            | Disgyblion yn gadael am adref     |

**Staffio/Staffing**  
**2024/2025**

|                                                                                                                           |                                                                                                       |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pennaeth/ <i>Headteacher</i> :                                                                                            | Mr Andreas Huws                                                                                       |
| Pennaeth Cynorthwyol (Uwchradd)<br><i>Assistant Head (Secondary)</i>                                                      | Ms Dawn Hoban (UDRh/SMT)                                                                              |
| Pennaeth Cynorthwyol (Cynradd)<br><i>Assistant Head (Primary)</i>                                                         | Mrs Mannon Grieves-Owen (UDRh/SMT)                                                                    |
| Uwch Arweinydd Dros dro: Uwchradd<br><i>Senior Lead: Secondary</i>                                                        | Mr Aled Williams (UDRh/SMT)<br>Mrs Sioned W Jones (UDRh/SMT)                                          |
| Uwch Arweinydd: Cynradd<br><i>Senior Lead: Primary</i>                                                                    | Mrs Lisa Roberts (UDRh/SMT)                                                                           |
| Rheolwr Busnes/ <i>Business Manager</i><br>Swyddog Gweinyddol a Chefnogaeth /<br><i>School Administration and Support</i> | Mrs Liza Aston (UDRh/SMT)<br>Mrs Iona Ponsonby/Miss Llinos Williams<br>(0.6)/Mrs Donnette Burke (0.4) |
| Technegydd/ <i>Technician</i> :                                                                                           | Neil Roberts (0.1)                                                                                    |
| Athrawon Pynciau Arbenigol<br><i>Specialist Teachers</i>                                                                  | Gethin Thomas B.Add (0.4)<br>Elen Hughes (0.6)                                                        |
| Swyddog Hwb Lles<br><i>Hub Wellbeing Officer</i>                                                                          | Jason Craig                                                                                           |

**Athrawon Dosbarth Cynradd/Primary Teachers**

| <b>Dosbarth/Class</b>                                           | <b>Enw/Name</b>     |
|-----------------------------------------------------------------|---------------------|
| Cynradd 1: (Cyfnod Sylfaen/ <i>Foundation Phase</i> )           | Zara Roberts        |
| Cynradd 1a: (Cyfnod Sylfaen/ <i>Foundation Phase</i> )          | Ann Pierce Jones    |
| Cynradd 2: (Cyfnod Sylfaen/ <i>Foundation Phase</i> )           | Lisa Roberts        |
| Cynradd 3a: (Cyfnod Sylfaen/ <i>Foundation Phase</i> )          | Lowri Carlisle      |
| Cynradd 3b: (Cyfnod Sylfaen / <i>CA2 Foundation Phase/KS2</i> ) | Mannon Grieves-Owen |
| Cynradd 4: (Cyfnod Allweddol 2/ <i>KS2</i> )                    | Aled Jones          |
| Cynradd 5: (Cyfnod Sylfaen/ <i>CA2/Foundation phase/KS2</i> )   | Naomi Edwards       |
| Dwynwen (Gofal Arbennig)                                        | Catrin Jones        |

**Athrawon Dosbarth Uwchradd/Secondary Teachers**

| <b>Dosbarth/Class</b>         | <b>Enw/Name</b>            |
|-------------------------------|----------------------------|
| Canol 1: (CA3/KS3)            | Lowri Fretwell             |
| Canol 2: (CA3/KS3)            | Sioned Jones/Meinir Thomas |
| Ceint 1: (CA3/CA4 – KS3/KS4)  | Kristin Friedman           |
| Ceint 1a: (CA3/CA4 – KS3/KS4) | Einir Roberts              |
| Ceint 2: (CA3/CA4 – KS3/KS4)  | Huw Edwards                |
| Ceint 3: (14-19)              | Aled Williams              |
| Ceint 4: (14-19)              | Dawn Hoban; Tabitha Mead   |

**Staff Cefnogol**

| <b>Cynradd/Primary</b> | <b>Uwchradd/Secondary</b> | <b>Gofal Arbennig/Special Care</b> |
|------------------------|---------------------------|------------------------------------|
| Sam Clutton (CALU)     | Catrin Williams (CALU)    | Jacqueline Ward-Davies (CALU)      |
| Dawn Williams (CALU)   | Nerys Jones (CALU)        | Mary Roberts                       |
| Elen Mai Jones (CALU)  | Kelly Davies (CALU)       | Hilda Owen                         |
| Laura Roberts (CALU)   | Llinos Roberts (CALU)     | Leanne Hughes                      |
| Gemma Hughes (CALU)    | Chloe Parry (CALU)        | Dwynwen Burford                    |
| Gwenan Williams (CALU) | Lois Hughes (CALU)        | Jodie Griffiths                    |
| Ffion Rowlands         | Ceri Roberts              | Staff Gofal Iechyd                 |
| Ffion Davies           | Islwyn Owen               |                                    |
| Anna Hughes            | Dion Williams             |                                    |
| Cathrin Williams       | Alison Burford            |                                    |
| Angharad Thomas        | Ceri Roberts              |                                    |
| Kelly Gerrard          | Jessica Tilbury           |                                    |
| Elen Mair Williams     | Lorraine Roberts          |                                    |
| Carla Eccles           | Jaqueline Davies          |                                    |
| Stella Jones           | Tomos Jones               |                                    |
| Ffion Jones            | Deian Elfyn               |                                    |
| Emily Everett          | Coni Sparrow              |                                    |
| Alys Jones             | Kat Tyszko                |                                    |
| Laura Owen             |                           |                                    |
| Tamara Thomas          |                           |                                    |
| Stacey Clutton         |                           |                                    |
| Ciara Rowley           |                           |                                    |
| Penny Jones            |                           |                                    |
| Llinos Wynne Williams  |                           |                                    |
| Jasmine Roberts        |                           |                                    |
|                        |                           |                                    |

**Eraill/Other**

| <b>Manylion/Details</b>                       | <b>Enw/Name</b>                                                   |
|-----------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|
| Nyrs/Nurse                                    | Tania Jones                                                       |
| Staff Gofal Iechyd/Healthcare Staff           | Hayley Morey<br>Gwyneth Hulme                                     |
| Gofalwr/Caretaker                             | Clive Jones                                                       |
| Gwasanaethau<br>Masnachol/Commercial Services | Nia Hughes<br>Wendy Griffiths<br>Jacqueline Ashworth<br>Mary Owen |
| Prif Gogydd/Cook in Charge                    | Belinda Jones                                                     |
| Staff Cegin/Kitchen Staff                     | Helen Owen                                                        |

**Tîm Rheoli a Cwricwlwm/  
Management and curriculum:**

Andreas Huws, Dawn Hoban, Zara Roberts, Naomi Edwards, Huw Edwards, Lowri Carlisle, Lowri Fretwell, Manon Grieves-Owen, Ann Pierce Jones, Sioned Jones, Tabitha Mead, Lisa Roberts, Gethin Thomas, Aled Jones, Aled Williams, Kristin Friedman, Einir Roberts, Catrin Jones, Samantha Clutton, Kelly Davies, Elen Jones, Nerys Jones, Laura Roberts, Llinos Roberts, Dawn Williams, Gemma Hughes, Chloe Parry, Catrin Williams, Liza Aston

**Uwch Dîm Rheoli/  
Senior Management Team:**

Andreas Huws, Dawn Hoban, Mannon Grieves-Owen, Liza Aston  
Lisa Roberts, Sioned Jones, Aled Williams

**Uwch Arweinydd/  
Senior Leader:**

Lisa Roberts (Cynradd/Primary)  
Sioned Jones/Aled Williams (Uwchradd/Secondary)

**Cyfrifoldeb dros LAC/  
Responsibility for LAC:**

Andreas Huws, Dawn Hoban

**Cyfrifoldeb dros  
Amddiffyn Plant/  
Responsibility Over  
Child Protection:**

Andreas Huws, Dawn Hoban, Mr Peter Davies OBE  
(Llywodraethwyr/Governors)

**ADRAN ADDYSG/EDUCATION**

**Seicolegydd Addysgol/  
Education Psychologist:**

Mrs Ffion Ellis Jones  
Mrs Elenid Glyn  
Ms Angela Bennett

**Swyddog Lles/  
Welfare Officer:**

**Swyddog Addysg/  
Education Officer:**

Mr Aaron Evans

**Anghenion Addysg Arbennig/  
Swyddog Addysg:**

Dr Einir Thomas

**ADRAN IECHYD/HEALTH DEPARTMENT**  
**Ffisiotherapi/Physiotherapy**

Darperir gwasanaeth Ffisiotherapi/Iechyd Galwedigaethol yn yr ysgol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y disgyblion hynny y mae angen cymorth arnynt.  
*The Physiotherapy and Occupational Health Service is provided in the school by the Betsi Cadwaladr University Local Health Board (BCU) for pupils requiring the assistance..*

**Swyddogion Ffisiotherapi/Physiotherapy Officials:** Ms Susan Strange  
Mr Mitesh Makanjee  
**Iechyd Galwedigaethol/ Occupational Therapist:** Ms Elin Pritchard  
Ms Manon Thomas

**Therapydd Lleferydd/Speech Therapy**

Darperir gwasanaeth therapi Lleferydd gan Awdurdod Iechyd Gogledd Orllewin Cymru ar gyfer gwneud asesiadau a chynllunio rhaglenni fel y gall athrawon eu cyflwyno o ddydd i ddydd.  
*The speech therapy service is provided in the school to assess and create programmes in order that teachers can introduce them on a day to day basis.*

Yn aml bydd gwaith y therapydd yn golygu asesiadau ar gyfer cymorth cyfathrebu trydanol a chyfrifiadurol.  
*Occasionally the therapists' work includes assistance for the use of electric and computer aids.*

**Therapydd Lleferydd ac Iaith/Speech Therapist:** Carol Davies Owen,  
Cari

**Partneriaeth a Rhwydweithiau Dysgu Proffesiynol/  
Professional Learning Partnerships and Networks**

Mae'r ysgol yn cydweithio ag ystod eang o asiantaethau a phartneriaid er mwyn datblygu a gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion yr ysgol.  
*The school collaborates and works in partnership with a wide range of external agencies and partners in order to develop and improve the school's provision for pupils.*

**LLYWODRAETHWYR/GOVERNORS**

**Aelodau'r Corff Llywodraethol 2023/2024  
2023/2024 Members of the Governing Body**

**Yn cynrychioli'r Awdurdod Addysg Lleol/Representing the Local Education Authority:**

Cyng. Nicola Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)

Cyng. Dylan Rees

Mr Lloyd Williams

**Yn cynrychioli'r Rhieni/Representing the Parents:**

Mrs Iris Williams

Miss Carys Thomas

Mr Sean Snape

**Aelodau Cyfetholedig/Co-opted Members:**

Mr Peter Davies OBE (Cadeirydd/Chair)

Dr. Julia Morgan

**Yn cynrychioli'r Mudiadau Gwirfoddol /Voluntary Movements:**

Mr Gwilym Pritchard

**Pennaeth/Headteacher:**

Andreas Huws

**Yn cynrychioli'r Athrawon/Representing Teaching Staff:**

Dawn Hoban

**Yn cynrychioli'r Staff Ategol/Representing Ancillary Staff:**

Gwennan Williams

**Clerc y Corff Llywodraethol/Clerk to the Governing Body:**

Iona Ponsonby

**Yn mynychu cyfarfodydd/Attending Meetings**

UDRh/SMT

## PRESENOLDEB

Ni ddylai unrhyw ddisgybl adael tir yr ysgol yn ystod oriau ysgol oni bai fod caniatâd swyddogol yn cael ei roi gan y Pennaeth neu UDRh.

1. Dylai'r holl abseboldebau gael eu egluro gan nodyn neu neges bersonol gan y rhiant neu warcheidwad i'r athro/athrawes dosbarth a/neu swyddfa'r ysgol.
2. Dylai rhieni sy'n dymuno cymryd eu gwyliau blynyddol yn ystod tymor yr ysgol gwblhau'r ffurflen briodol (ar gael yn swyddfa'r ysgol) a'i dychwelyd i'r ysgol.
3. Yn ddelfrydol dylai cardiau apwyntiadau gael eu cyflwyno, neu neges bersonol lle mae gan ddisgybl apwyntiad clinig, meddygol neu ddeintyddol. Mae hyn hefyd yn gallu cael ei gyfathrebu gan ddefnyddio dyddiaduron ysgol.
4. Addysg Gorfforol; pe byddai disgybl yn dymuno cael ei esgusodi o wers am reswm dilys yna mae'n rhaid darparu nodyn gan rieni/gwarcheidwaid.
5. Bydd disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr yn adrodd i'r Dderbynfa gyda'i riant/arall

|                                                                                   |        |
|-----------------------------------------------------------------------------------|--------|
| Nifer o sesiynau na fynychwyd oherwydd absenoldeb heb ei awdurdodi <b>23/24</b> : | 0.69%  |
| Nifer o sesiynau absenoldeb a awdurdodwyd <b>23/24</b> :                          | 7.24%  |
| Presenoldeb <b>23/24</b> :                                                        | 92.06% |

## CYRCHFAN YMADAWYR 2023/24:

Roedd cyrchfan ymadawyr ar gyfer 2024 fel a ganlyn:

|                                                             |   |
|-------------------------------------------------------------|---|
| <b>Nifer yr Ymadawyr</b>                                    | 4 |
| <b><i>Lleoliadau:</i></b>                                   |   |
| <b>Coleg Glynllifon</b>                                     | 2 |
| <b>Coleg Menai</b>                                          | 1 |
| <b>Coleg Pengwern</b>                                       | 0 |
| <b>Gofal/Gofal iechyd<br/>Gwasanaethau<br/>Cymdeithasol</b> | 1 |
| <b>Canolfan Byron</b>                                       | 0 |
| <b>Tyddyn Môn</b>                                           | 0 |

### Sylwer:

Mae Copi Caled o'r Llawlyfr a Phrosbectws hwn a hefyd ein llawlyfr Cwricwlwm i Gymru ar gael o'r ysgol ar gais (neu'n uniongyrchol o Swyddfa'r Ysgol). Fel arall, mae'r ddau hefyd ar gael i'w darllen a'u lawrlwytho ar ein gwefan: [www.canolfanaddysgybont.cymru](http://www.canolfanaddysgybont.cymru)